# Adroddiad Plant a Phobl Ifanc: Cais am Dystiolaeth

## Cais Drafft am Dystiolaeth

### 1. Cyflwyniad

Ym mis Tachwedd 2025, comisiynodd y Llywodraeth y Gwir Anrhydeddus Alan Millburn i lunio adroddiad a fydd yn ceisio gwneud y canlynol:

- deall yr hyn sy'n ysgogi'r cynnydd yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), gan gynnwys y rhai sy'n hawlio budd-daliadau iechyd ac anabledd a phrofiadau yn ystod plentyndod.
- ymchwilio i achosion sylfaenol y cynnydd hwn mewn anweithgarwch economaidd ymhlith pobl ifanc anabl a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd.
- gwneud argymhellion ar gyfer ymatebion polisi gyda'r nod o gynyddu cyfleoedd i bobl ifanc.

Eir ati i lunio'r Adroddiad gan ddilyn dau gam pendant:

1. Cam darganfod a fydd yn cynnig rheswm dros y cynnydd yn nifer y bobl ifanc, gan gynnwys pobl ifanc anabl a'r rhai sydd â chyflwr iechyd nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
2. Cam datrys a fydd yn nodi meysydd posibl lle y gellir gwneud diwygiadau.

## 2. Cefndir a thueddiadau

Mae gormod o bobl ifanc yn colli allan ar fanteision gwaith da am nad ydynt yn gallu datblygu eu haddysg, eu sgiliau, neu eu gyrfaoedd. I bobl ifanc, gall yr effaith bara oes; byddant yn colli hyder, yn colli cyfleoedd, a bydd rhai yn colli mwy na £1 miliwn mewn enillion. Nodwyd bod cysylltiad rhwng bod yn ddi-waith o dan 23 oed ac ennill cyflog is, hyd yn oed ddau ddegawd yn ddiweddarach. Mae hyn yn her strwythurol hirdymor sydd wedi gwaethygu dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae bron filiwn o bobl ifanc – tua un o bob wyth o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed – nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Gallent lenwi Stadiwm Wembley dros 10 gwaith. Mae hyn yn gynnydd o 200,000 ers 2022.

Mae cyfran y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant tua dwywaith yn fwy na’r gyfran yn Japan neu Iwerddon a theirgwaith yn fwy na’r gyfran yn yr Iseldiroedd.

Mae’r rhan fwyaf o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn economaidd anweithgar, sy’n golygu nad ydynt yn chwilio am waith nac yn gallu dechrau gweithio. Mae 60% o’r bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant – 580,000 o bobl ifanc – yn economaidd anweithgar: cynnydd o 55% a 476,000 yn 2015.

Yn Lloegr, yn 2024 amcangyfrifwyd bod y rheini nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant bron

ddwywaith yn fwy tebygol o fod â chyflwr iechyd (51%) na'r boblogaeth gyffredinol o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed (27%). Amcangyfrifwyd bod cyfran y bobl ifanc nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn Lloegr a oedd â chyflwr iechyd meddwl yn 2024 bron ddwywaith a hanner yn fwy na'r gyfran yn 2012, sef 19% o gymharu â 8%.

Mae nifer y bobl ifanc sy'n cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag iechyd, yn benodol elfen Iechyd y Credyd Cynhwysol a'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, wedi cynyddu fwy na 50% dros y pum mlynedd diwethaf, gan gyrraedd 239,000. Mae 4 o bob 5 o'r rheini sydd â chyflwr a gofnodwyd sy'n cael elfen Iechyd y Credyd Cynhwysol yn ei hawlio o ganlyniad i broblemau iechyd meddwl neu gyflyrau niwroddatblygiadol.

Mae safbwyntiau amrywiol am y ffactorau sylfaenol sy'n sail i'r tueddiadau hyn. Ymhlith y dylanwadau a drafodwyd mae newidiadau diweddar yn y farchnad lafur, effaith datblygiadau cymdeithasol a thechnolegol, tlodi ac anghydraddoldeb, yn ogystal â newidiadau i'r system budd-daliadau, ymhlith eraill.

Mae angen mynd ati o'r newydd i ateb yr her hon. Mae'n bwysig ystyried addysg, sgiliau a hyfforddiant, ond hefyd rolau cyflogwyr, y system gofal iechyd, a'r system budd-daliadau. Drwy ystyried pob un o'r meysydd hyn, gallwn feithrin dealltwriaeth well o'r sefyllfa bresennol a nodi ffyrdd newydd o helpu pobl ifanc i sicrhau swyddi o safon.

# 3. Cais am Dystiolaeth

Mae'r Cais hwn am Dystiolaeth yn ceisio tystiolaeth a gwybodaeth gan unrhyw un sydd â phrofiad *bywyd*, gwybodaeth ac arbenigedd perthnasol i lywio'r cam darganfod. Rydym yn arbennig o awyddus i glywed gan y canlynol:

- Pobl ifanc â phrofiad bywyd o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant
- Pobl ifanc anabl a phobl ifanc â chyflyrau iechyd
- Rhieni a gofalwyr pobl ifanc
- Cyflogwyr
- Gwasanaethau rheng flaen sy'n cefnogi pobl ifanc
- Undebau Llafur
- Academyddion a melinau trafod
- Darparwyr cyflogaeth, addysg, iechyd a gyrfaoedd.

Rydym yn chwilio am dystiolaeth a gwybodaeth i ateb dau gwestiwn:

1. Beth sy'n atal mwy o bobl ifanc rhag cymryd rhan mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant?
2. Beth fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i helpu mwy o bobl ifanc i gymryd rhan?

Wrth ateb y cwestiynau hyn, rydym yn awyddus i gael tystiolaeth a gwybodaeth am effeithiau'r canlynol:

- Natur newidiol y farchnad lafur a gwaith

- Unrhyw newidiadau i ddyheadau ac agweddau pobl ifanc a chyflogwyr
- Newidiadau i dueddiadau iechyd (yn enwedig cyflyrau iechyd meddwl a niwroddatblygiadol)
- Y cysylltiad rhwng y sgiliau a'r profiad sydd gan bobl ifanc a'r rhai y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt
- Y systemau budd-daliadau a chymorth cyflogaeth
- Pwyntiau trosglwyddo rhwng elfennau gwahanol o'r systemau budd-daliadau, cyflogaeth, iechyd, addysg a sgiliau
- Ffactorau plentyndod
- Cymuned a lle

Ochr yn ochr â'r cais hwn am dystiolaeth, byddwn yn cynnal amrywiaeth eang o weithgareddau rhagweithiol i sicrhau ein bod yn clywed yn uniongyrchol gan bobl ifanc am eu profiadau bywyd.

## Sut i gyflwyno eich tystiolaeth

Dylech gyflwyno eich tystiolaeth i youngpeopleandwork.report@dwp.gov.uk erbyn dydd Gwener 30 Ionawr er mwyn sicrhau bod modd dadansoddi eich tystiolaeth a'i chynnwys yn yr adroddiad.